# Cynnau Goleuadau Nadolig y Rhyl

Mae Rhyl wedi dechrau cyfri'r dyddiau tan y Nadolig ar ôl cyhoeddi dyddiad cynnau'r goleuadau swyddogol a'r rhai a fydd yn perfformio yno.

Bydd y dref yn disgleirio i gyd pan fydd y goleuadau Nadolig yn cael eu cynnau ar 24 Tachwedd, a bydd Kevin Simm, enillydd The Voice 2016, yn ymuno â Maer Tref y Rhyl, y Cynghorydd Sarah Roberts, i ddechrau'r dathlu.
Bydd nifer o sêr yn y digwyddiad gyda Kevin, gan gynnwys cyn-aelod y band JLS, Ortise; Yes Lad, a gyrhaeddodd rownd tai beirniaid X-factor; y gantores Samantha Atkinson; a'r band lleol, Chasing Shadows.
Diddanwyr stryd mewn gwisgoedd, pobl yn cerdded ar stiltiau a gwynfyd hud y gaeaf - dyna rai o enghreifftiau o'r adloniant gwych a fydd ar gael i ddiddanu'r dorf wrth gynnau'r goleuadau.

Yn ymuno â nhw bydd 'The Birds', act o adar enfawr sy'n cerdded o amgylch y lle, gyda'u cynffonau mawr yn diddanu ac yn ysbrydoli cynulleidfaoedd â'u effeithiau goleuni anhygoel. O bell, mae 'The Birds' yn drawiadol ac yn wefreiddiol ac o fynd yn nes, mae eu manylder yn anhygoel ac maent yn wych wrth berfformio gyda'r nos.

Mae diddanwch stryd arall yn cynnwys plygwyr balwnau a mwy o gymeriadau mewn gwisgoedd tymhorol.

Bydd adloniant y noson yn cychwyn ar y Stryd Fawr am tua 3.30pm ac yn gorffen gydag ychydig o dân gwyllt.

Mae'r digwyddiad wedi'i drefnu gan Gyngor Sir Ddinbych gyda chefnogaeth Cyngor Tref y Rhyl.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chanolfan Groeso'r Rhyl ar 01745 355068.